# PERTHYN

Chwefror 2023 313



Stori fawr yn y manion mân ... t 10

# Gair gan y Gweinidog



## Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!

Fe ddaeth ac fe aeth y Nadolig a bellach mae mis Ionawr yn prysur lithro i'w derfyn. Fel yna mae hi wastad a rhywun yn teimlo bod y cyfan drosodd yn rhy fuan. Wedi'r holl ddarparu, mae yna ddathliad a chyfle i ddatod oddi wrth realiti bywyd ond yn sydyn mae rhywun yn gorfod dychwelyd.
Mae gen i gof plentyn o deimlo tristwch mawr wrth i'r flwyddyn 1975 lithro i'r gorffennol. Wn i ddim pam, allai ddim cofio beth oedd yn gwneud y flwyddyn honno mor arbennig, dim ond efallai y dyhead naturiol i ddal gafael yn y presennol. Gall profiadau heddiw fod mor werthfawr a gyda hynny, yr alwad i'w hadnabod ac ymateb mewn ysbryd 'dal ar y cyfle' ond buan iawn y maen nhw'n troi yn bethau ddoe, ac felly'r alwad i adnabod yr yfory hwnnw sy'n ddieithr ac yn wanoddiad i ni.

Ymhen ychydig ddyddiau fe fydd hi'n fis Chwefror, mis bach ond mis yn llawn digwyddiadau. Ymhlith y digwyddiadau hynny fe fydd yna sôn am gariadon ond da dweud bod hynny wedi digwydd yn barod i ni fel Cymry. Santes Dwynwen, a hyfryd y flwyddyn yma oedd gweld gorymdaith yn nodi'r achlysur yn Aberystwyth gyda cherflun o'r wraig arbennig honno, ym mhatrwm rhai o wyliau crefyddol y cyfandir efallai, yn ganolbwynt i'r cyfan. Na, toeddwn i ddim yno, bu'n rhaid blaenoriaethu a bod yn dacsi i fab o fyfyriwr oedd am ddychwelyd i'r coleg, ond petawn i gartref fe fyddwn wedi ymuno â'r orymdaith a hynny am reswm penodol. Tydw i ddim yn ŵr rhamantaidd a fyddwn i ddim yn ymuno am unrhyw gymhellion gwleidyddol, yn hytrach, am y rheswm syml fy mod yn cefnogi unrhyw sibrwd tawel am GARIAD. Pam? Am y ffaith syml y gall y sibrydion hynny fynd ar goll mewn bywyd. Mae'n wybyddus i chi bod y Groegwr yn defnyddio nifer o wahanol eiriau wrth sôn am gariad, geiriau sy'n cwmpasu

dealltwriaethau amrywiol o ystyr cariad ac yn eu plith, cariad brawdol, *PHILIA,* y modd yr ydach chi a fi yn gweld ein gilydd.

Ar hyn o bryd dwi'n darllen llyfr gan ŵr o'r enw Alex Frost, offeiriad yn Eglwys Loegr; *Our Daily Bread.* Heb ymhelaethu, fe gaf gyfle i wneud hynny mewn oedfa, trwy gyfrwng ei brofiadau personol mae'n darlunio cymuned a phobl Burnley ac yn tanlinellu dau brif beth; y gagendor yna sy'n cynyddu rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn ein cymuned, a'r ffaith nad yw'r llywodraeth bresennol yn malio dim, a'r modd diragfarn y mae galw ar bobl ffydd ac yn hynny'r Eglwys i weld bywydau. Dyma yn ôl Alex Frost sy'n dod a ni at graidd yr Efengyl ac yn hynny, eiriau'r Iesu, yr alwad i ymateb i fywydau mewn cariad a thrugaredd. Bellach mae Mannau Cynnes wedi eu sefydlu mewn nifer o lefydd yn y sir ac yn eu plith, Y Morlan. Drws agored ynghyd â phaned a rhywbeth ysgafn i'w fwyta, cynhesrwydd adeilad a chwmni ac yn araf bach mae'r ddarpariaeth yn cydied. Un o nifer o syniadau sydd ar gynnydd yn ein cymunedau ac yn dangos y modd y mae grwpiau yn ymateb yn ymarferol i angen gyda'r Eglwys yn eu plith. Mewn byd o newid a'r dieithrwch sy'n gallu perthyn i gredo ac i fywyd eglwysig, onid yn y fan yna efallai y byddwn yn ail ddarganfod ein hygrededd.

Arwyddion o wasanaeth a sail y cyfan i'r Cristion, cariad cyflawn Duw wedi ei ddatguddio i ni ym mherson yr Iesu a chariad Duw sy'n dysgu eich cariad chi a fi. Boed i ni y gwyledd-dra i weld hynny ond yn fwy felly i'w fyw a'i rannu ac fe fydd mis Chwefror, mis y Grawys yn gyfle newydd i fyfyrio ar gyfoeth y ddealltwriaeth yna.
Mwynhewch eich crempog !

**Eifion.**

# Newyddion

## Cofion a dymuniadau gorau

at Elfed Jones, Megan Morris, Bethan Thomas a Wyn Thomas a fu yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf Anfonwn ein cofion hefyd at ein aelodau sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl.

## Cydymdeimlad

- ag Iwan Bryn a Gwenan Creunant, Marged a Tomos ar farwolaeth mam Iwan, sef Mrs Gwen James, Rhydymain,
- â Robin Huw Bowen ar farwolaeth ei gymar, Pat Donovan, a Mona Bowen ar golli ei mab yng nghyfraith,
- â Phyllis Jones sydd wedi colli ei chwaer yn ddiweddar, sef Mrs Margaret Griffiths a oedd wedi symud o Langeitho i fyw ym Mhenrhyn-coch.
- â Ieuan ac Eluned Jones ar farwolaeth brawd Ieuan, sef Mr Tom Jones, Llanbadarn Fawr. Roedd yn gefnder i David Alun Jones a chydymdeimlwn ag ef hefyd.
- â theulu y diweddar Barch. Raymond Jones a fu farw yng Nghartref Brondesbury Aberteifi. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel y Morfa. Wedi ymddeol roedd yn ffyddlon yn y Gwasanaethau yng Nghapel y Morfa ac yng Nghymdeithas Gweddi a Choffi ar fore Mawrth.

## Derbyn Ieuenctid yn Gyflawn Aelodau

Llawenydd mawr oedd derbyn pedwar o'r ieuenctid yn gyflawn aelodau mewn gwasanaeth teulu arbennig ar fore Sul, 4 Rhagfyr. Croeso cynnes iawn i Macsen Llewelyn Evans, Lowri Mair Jones, Elan Mari Mabbutt a Lleucu Nest Siencyn. Cafwyd paned ar ôl y gwasanaeth a chyfle i gymdeithasu a'u croesawu.



Diolch i Eifion am eu paratoi ac i Elin Royles am ei chymorth gyda'r trefniadau.

# Capel Ebeneser



Anfonwn ein cofion at Megan Morris sydd wedi bod yn yr ysbyty eto cyn y Nadolig ond sydd wedi dychwelyd i'w chartref ym Maes y Môr lle mae gofal a chymdeithas ardderchog.
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser ar ddechrau blwyddyn newydd.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig a Chymun o dan ofal ein Gweinidog, Eifion Roberts yn Ebeneser ar brynhawn Sul, Rhagfyr 18fed a Gwasanaeth dechrau'r flwyddyn a  Chymun ar Ionawr 15fed.

Bydd y Gwasanaeth nesaf a Chymun ar brynhawn Sul, 5 Chwefror am 2.15, gan ddychwelyd i batrwm y Sul cyntaf yn y mis.

Diolch i Susan Hughes am baratoi'r Cymun bob mis.

***I'r rhai sydd erioed wedi mynychu oedfaon yn Ebeneser, beth am ymuno? Mae awyrgylch arbennig yn y capel bach a chroeso cynnes yn eich disgwyl bob amser.***

# Yr Ysgol Sul

## *Cyfnod y Nadolig*

Ar Sul cyntaf yr Adfent cynhaliwyd Llanllanast y Nadolig. Roedd y gweithgareddau crefft yn cynnwys creu cardiau Nadolig a sêr o bob math. Gwelwyd cofnod o'r gwaith ar ffilm fideo a ddangoswyd ar y sgrin yn ystod y Gwasanaeth Nadolig.
Thema'r gwasaneth oedd *'Mae Croeso i Bawb wrth y Preseb'.*
Cyflwynwyd y neges trwy gyfrwng unawdau, eitemau offerynnol, cyflwyniadau ar lafar ac ar gân a'r plant ieuengaf yn ffurfio golygfa'r preseb.
Estynwyd croeso i bawb yn eu tro at y preseb gan ddau yn eu crysau Cymru a oedd wedi galw ym Methlehem ar eu ffordd adref o Gwpan y Byd. Croesawyd Mair a Joseff, yr angylion, y bugeiliaid a'r brenhinoedd ac yna plant y gwledydd, y teithwyr a'r ffoaduriaid. Wrth i'r ieuenctid estyn croeso i'r unig, y digartref a'r anghenus i'r lle sy'n ddiogel a'r lle sy'n rhoi gobaith, rhanwyd sêr y Nadolig ymhlith y gynulleidfa gyda neges o obaith a goleuni yn deillio o eiriau'r Arglwydd Iesu.

***Myfi yw goleuni'r byd…Chwi yw goleuni'r byd.***

## *Parti Nadolig*

Ar ôl y gwasanaeth cynhaliwyd parti yn y festri. Cafwyd ymweliad gan Siôn Corn ac roedd ei sach yn llawn, fel arfer.
*Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cymorth gyda threfniadau'r gwasanaeth a'r parti.*

## *Bore Nadolig*

Cynhaliwyd gwasanaeth teuluol ar fore Nadolig o dan arweiniad Eifion. Braf oedd gweld cynifer o deuluoedd yn bresennol, yr ieuenctid gartref dros y gwyliau a'r plant gyda'u anrhegion Nadolig.

---

Golygyddion y mis hwn yw Sharon ac Arwel. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn MAWRTH at Eifion ac Alwen erbyn dydd Sul, 19 Chwefror, os gwelwch yn dda.

---

## *Ionawr 2023*

Teulu a Ffrindiau yw thema'r tymor newydd. Cyflwynwyd hanes y doethion ar Sul yr Ystwyll a'r wythnos ganlynol dewiswyd stori Simeon ac Anna - hanes Mair a Joseff yn cyflwyno'r Iesu yn y Deml. Bu'r plant ieuengaf yn creu llun o'r stori a'r plant hŷn yn creu canhwyllau gobeithion 2023 a llusernau lliwgar yn deillio o'r goleuni a'r gobaith yn y stori.






## *Llanllanast Hwyl Gŵyl Dewi*

Cynhelir Llanllanast Gŵyl Dewi ar fore Sul, 26 Chwefror yn ystod amser Ysgol Sul (y Sul ar ddiwedd hanner tymor).

Mae gwahoddiad i wisgo eich gwisg Gymreig neu grys Cymru. Darperir amrywiaeth o weithgareddau hwyliog ar gyfer bob oed.

# Gweddi a Choffi a Ffydd a Phaned

## *Cymdeithas Gweddi a Choffi.*

***Bob bore Mawrth. Ar Zoom am 11 o'r gloch (pan mae siaradwyr o bell) neu wyneb yn wyneb yn y Festri am 10.30. Beth am ymuno?***

Cyn y Nadolig ymunodd y Parch. Alun Moreton Thomas â ni ar Zoom. Mae'n Weinidog ar Eglwysi Gofalaeth Llanfair Pwll a Llangefni ac wedi ei Ordeinio yn yr Hydref. Roedd hi'n fraint clywed am ei brofiadau fel gweinidog ifanc, a'i waith yn yr eglwysi a'u cyfraniad i'r gymuned. Mae hwythau, fel ninnau, yn cynnig lle cynnes i aelodau o'r eglwysi a'r gymuned gyfarfod.

## *Astudiaeth Ffydd a Phaned*

***Bob prynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom. Beth am ymuno?!***

Y tymor hwn byddwn yn astudio gwerslyfr Yr Ysgol Sul – *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones. Mae Eifion yn cyflwyno unedau diddorol yn llawn amrywiaeth yn seiliedig ar benodau o'r llyfr.

# Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol

Bydd y cinio Bara a Chaws nesa' yn cael ei gynnal yn **festri Seion,** Stryd y Popty, **ddydd Llun, 6 Chwefror,** rhwng 12.00 ac 1.30 o'r gloch.
Croeso cynnes i bawb!

# Y Gymdeithas

Ar **brynhawn 21 Tachwedd**, Mary Olwen Owen a gymerodd y rhan defosiynol a Lona Jones, ein cadeirydd, a groesawodd Marian Delyth, y ffotograffydd a'r dylunydd profiadol, i annerch ar 'Ynys Enlli'. Cyfeiriwyd at ddwy gyfrol o'i gwaith sy'n cynnwys lluniau trawiadol, sef 'Enlli' a 'Hon' – a'r olaf yn cynnwys lluniau gan Marian ac artistiaid eraill.
Sefydlodd Sant Cadfan gell ar Enlli yn y chweched ganrif. Bryd hynny, fel heddiw, rhaid croesi'r swnt cyn cyrraedd yr ynys a gall hynny fod yn beryglus mewn tywydd garw.
Dangosodd Marian nifer o luniau trawiadol yn ystod ei sgwrs – y goleudy coch a gwyn a'i olau coch yn cael ei reoli o bell. Gwelsom lun o Aderyn Drycin Manaw oedd wedi hedfan o Dde America. Mae'r aderyn, sydd â chymar oes, yn gadael cyw ar yr ynys cyn hedfan yn ôl i Dde America. Rhyfeddom at y llun o forlo yn neidio o'r môr a'r llun o forlo bach newydd-anedig ar y lan. Roedd y llun o ddefaid yr ynys yn cael eu cludo mewn cwch i'r tir mawr yn olygfa unigryw yn sicr. Llwyddodd Marian i dynnu llun o'r wawr yn torri ar Enlli ar ddiwrnod clir a bryniau Wicklow, Iwerddon, i'w gweld ar y gorwel. Mae ganddi lygad am olygfa drawiadol a chofiadwy.



Diolchodd Gareth Owen iddi am gyflwyniad diddorol ac am ei gwaith gwerthfawr o gofnodi manylion gyda chamera

**Nos Lun 5 Rhagfyr** cawsom gwmni Rhidian a Catherine i ddathlu'r Nadolig. Ar ôl i Lona gyflwyno'r ddau, darllenodd Rhidian adnodau o Eseia 11 a chyflwynodd Catherine y weddi. Soniodd Rhidian am argraffiadau o'i blentyndod adeg y Nadolig yn Abertawe, gan gyfeirio at *Nadolig Plentyn yng Nghymru,* cyfieithiad o waith Dylan Thomas, a fagwyd hefyd yn Abertawe. Canodd Catherine garol sef *Grist bendigedig - faban y Forwyn.* Cyfeiriodd Rhidian at bobl a gafodd argraff arno yn ei blentyndod, fel y cerddor H.D. Jones. Canwyd nifer o




garolau gan y gynulleidfa, gan gynnwys un o ffefrynau Rhidian *Mae'r nos yn ddu*. Diweddodd Rhidian drwy ddyfynnu Dylan Thomas pan ddywedodd 'memories of childhood have no order and no end'. Diolchodd Eifion i Rhidian a Catherine am noson ddiddorol a chyfeiriodd at wybodaeth eang Rhidian o emynau. Daeth y noson i ben wrth i bawb fwynhau te a danteithion Nadolig a drefnwyd gan ein cadeirydd, Lona Jones.

Ar **nos Lun 9 Ionawr,** Menai a gymerodd y rhannau defosiynol. Paratowyd cwis i'r aelodau gan Gwynfor gyda Shelagh yn cadw trefn ar farciau pob tîm. Dywedodd Lona, ein cadeirydd, fod Gwynfor yn enwog am baratoi yn fanwl. Roedd pawb yn edrych ymlaen at ateb y cwestiynau ac at ddysgu llawer hefyd! Cawsom rowndiau ar ddyddiadau pwysig yn hanes Aberystwyth, ar gymeriadau â chysylltiad cryf â Cheredigion, lluniau anghyfarwydd o bobl enwog a lluniau hefyd o adeiladau enwog, ynghyd â chwestiynau cyffredinol. Diolchodd Eleri I'r ddau am y paratoi manwl a wnaethant i roi noson ddiddorol a hwyliog i ni. Er y cystadlu brwd, roedd marciau terfynol y timau yn agos iawn!



## Bruegel, *Y cyfrifiad ym Methlehem.*

Mae pawb ohonoch yn gyfarwydd a hanes Mair a Joseff yn teithio i Fethlehem. (Luc 2 1-7). A rhai ohonoch yn gyfarwydd â llun Bruegel yr Hynaf o'r cyfrifiad ym Methlehem. Mae'r llun llawn ar y clawr ond os oes gennych liniadur gallwch weld y llun yma

Ganed Bruegel yn 1525 a phaentiwyd y llun yma yn 1566, tair mlynedd cyn ei farwolaeth. Mae'r artist yn trawsblannu'r hanes i'w gyfnod ei hun a'i leoli yn yr Iseldiroedd. Roedd hi'n gyfnod cythryblus iawn. Roedd dysgeidiaeth Luther a Calfin wedi dechrau cydio mewn sawl ardal, ond ardaloedd eraill yn glynu wrth yr Hen Ffydd. Roedd Phillip 2 o Sbaen yn rheoli'r wlad ac er mwyn talu am ei ryfeloedd yn erbyn Ffrainc, roedd yn trethu'r trigolion yn drwm. Yn yr 1650au, roedd Ewrop ynghanol "oes bach yr ia" a llynnoedd, afonydd ac hyd yn oed rhai moroedd wedi rhewi'n gorn, a bwyd yn brin.

Mae hwn yn llun prysur iawn, plant yn chwarae yn yr eira, gweithwyr yn dychwelyd o'u gwaith cyn iddi nosi, a hefyd nifer yn ymdrechu i gofrestru cyn iddi dywyllu.



Edrychwch yn gyntaf ar yr adeilad ar waelod y llun ar yr ochr chwith. Mae'r adeilad yn un swyddogol, mae baner eryr deuben, symbol yr Hapsburgs a Brenin Sbaen ar y wal allannol ac mi welwch bod yna ddau fwth, yn y cyntaf dyn a llyfr yn cofnodi pawb ond yn yr ail bwth, pobl yn talu arian. Heb os nid cyfrifiad syml ydi hwn ond y broses o gasglu trethi a rhenti i ariannu rhyfel Sbaen.



Ar ochr dde y llun, mae plant yn chwarae ar y rhew a tu ol mae hofel bren. Os edrychwch yn ofalus wrth ddrws yr hofel mae dyn efo rattle pren yn ei law, gwahanglwyf. Mae'n amlwg bod y gwahanglwyf yng nghyfnod Bruegel yn cael byw yn ei gymuned

ond iddo roi rhybudd ei fod ar gerdded. Gwelwch bod gardd fach ganddo ac ar y dde mae tlotyn neu sipsi ( yn ol yr het) yn ceisio dwyn rhai o'r llysiau. Yr un hen stori, mae mwy o ddwyn oddi wrth bobl tlawd a'r anghenus na sydd o'r cyfoethog.



Os trown yn ol at yr adeilad pleidleisio, o flaen yr adeilad mae nifer o bobl, un wraig mewn het ddu yn gwaedu mochyn i farwolaeth, a'i chymdoges, mewn het wen yn casglu'r gwaed. Bydd digon o bwdin gwaed a chig moch dros weddill y gaeaf felly.

Ond wrth gwrs tydi hi ddim yn debyg bod unrhyw ladd mochyn yn digwydd ym Methlehem yn oes yr Iesu. Hyd heddiw tydi'r Iddew na'r Moslem yn bwyta porc.

Ac ymlaen a ni at y manylyn olaf , sef prif wrthrych y llun, Joseff yn arwain Mair feichiog ar gefn asyn, ac yn nesau at y bwth cofrestru. Ydach ch'n sylwi ar rywbeth gwahanol i gymharu a'r stori gwreiddiol.



Dyna ni, mae Joseff hefyd yn tywys ychen ifanc, hwyrach ei fod yn bwriadu ei werthu ym Methlehem neu yn Jeriwsalem cyn dychwelyd i Nasareth er mwyn cael tipyn o arian i'w helpu i fyw dros y gaeaf

Mae lluniau Bruegel yn gallu codi mwy o gwestiynnau na maen nhw'n eu hateb.Ond y peth pwysig ydi bod gwerin bobl cyfnod Bruegel yn gallu uniaethu a llawer o brofiadau trigolion Bethlehem dros fil a hanner o flynyddoedd ynghynt. Roedd y ddwy wlad dan ormes gan fyddinoedd estron, effeithiol a chreu, roeddynt yn gorfod talu mwy o drethi blwyddyn ar ol blwyddyn, ac roedd biwrocratiaeth yn niwsans ac yn llawdrwm. Ac wrth gwrs roeddynt yn hollol ddibynnol ar y tymhorau a'r tywydd, i sicrhau bwyd a thannwydd.Yn crafu byw.

**Meurig Royles**

# Doethineb Facebook



‘Mae dwy ffordd o gael digon. Un yw i gasglu mwy a mwy. Y llall yw i ddymuno llai.’

G.K. Chesterton

Llun: Bron y cyfan o eiddo Ghandi pan fu farw.



‘Y gyfrinach i fyw yn dda ac yn hirach yw: bwyta hanner cymaint, cerdded ddwywaith gymaint a charu heb fesur.’

Dihareb Dibetaidd



‘Dywedodd un o fy athrawon wrtha’i i ddarllen y llyfrau oedd â’r cloriau bleraf oherwydd, gallwch ddweud eu bod wedi cael eu darllen gan lawer o bobl, a chan amlaf mae stori wych ar y tu mewn.’

# Cofio Elvey

Elvey: cymeriad gonest, hael, agored, dibynadwy, annwyl. Y person swil a oedd yn gwmnïwr diddan; y cymeriad addfwyn, diymhongar ond cadarn, a'r gŵr gwylaidd na fedrai oddef anghyfiawnder. Trefnydd y llwyfan cenedlaethol a wnâi unrhyw beth i beidio â bod o dan y llifolau ei hun.

Roedd y teulu'n gwbl ganolog i'w fywyd - fel y gall ei gydweithwyr dystio - pa mor hwyr bynnag fyddai Pwyllgor Gwaith neu Gyngerdd Cyhoeddi'n gorffen ym mhellafoedd y gogledd neu ddyfnderoedd y de, adre yr hoffai e fynd bob tro.

Roedd yn falch o'i dras a balch o'i Gymreictod. Roedd stori ganddo am ei ymweliad cyntaf â Chymru tua 1964 - Gogleddwraig wedi sylwi ar ei acen bert a dweud wrtho: 'rhaid eich bod yn dwad o'r sowth', ac Elvey'n meddwl i'w hunan: '*dwi'n dod o dipyn pellach i'r sowth nag oedd hi'n 'styried!*

Ac fe fu'r ymweliad cyntaf hwnnw â Chymru yn dyngedfennol iddo. Wedi hyfforddi'n athro a gweithio mewn banc, a chyfnod llai na disglair o orfodaeth filwrol yn Lluoedd Arfog Ariannin, newidiodd cwrs ei fywyd yn ddramatig pan neidiodd at y cyfle i ddod i Gymru.

Roedd yn drefnydd wrth reddf - cafodd brofiad gydag Eisteddfod y Wladfa ac o 1967 cynorthwyo Tomi Scourfield ac yna Idris Evans gyda'r Eisteddfod Genedlaethol. Roedd ffawd wedi penderfynu mai yn Rhydaman y byddai'r Genedlaethol ym 1970 ac yno y cyfarfu â Delyth Thomas, merch Mans Glanaman, a dyna briodi ar 12 Rhagfyr 1970 a dechrau ar bartneriaeth oes. A does wybod beth fyddai wedi'i wneud hebddi.

A dweud y gwir byddai dadansoddi dylanwad merched ar fywyd Elvey'n ddiddorol. Soniai am ei ddwy Nain ac wrth gwrs ei fam Sarah MacDonald. Yr atgof penna' sy'n gen i amdani hi oedd un bore pan oedd Eleri a minnau'n aros gyda Delyth ac yntau, a'i gweld hi'n yfed ei matè o gwpan drwy'r *bombilla* - y gwelltyn metel traddodiadol. Golygfa a oedd yn uno dau ddiwylliant Cymry'r Wladfa. Roedd e'n agos at ei chwaer Edith - a gweddill y teulu - perthynas roedd e'n ei chynnal dros fwlch o 7,000 o filltiroedd.

O'r diwrnod y daeth yn Drefnydd 'Steddfod yr Urdd ym 1973 tan ei ymddeoliad chwarter canrif yn ddiweddarach, ei nod fu datblygu'r

Eisteddfod yn Ŵyl Ieuenctid gwerth yr enw. Roedd e'n sôn am ddyletswydd yr Eisteddfod i fod yn fentrus a heriol - ac wrth iddo dyfu yn y swydd daeth yntau yn fwy mentrus, heriol ac uchelgeisiol dros y 'Steddfod a'i darpariaeth.
Eisteddfod fach dridiau a etifeddodd yn 1973. Erbyn y Barri yn 1977 aeth yn bedwar diwrnod, ac yna'n bum diwrnod, ac erbyn Cwm Gwendraeth yn 1989 roedd yn wythnos lawn.
Datblygiad yr oedd yn falch ohono oedd y cystadlaethau i ddisgyblion Anghenion Addysgol Ychwaegol. Roedd rhai yn dweud mai integreiddio'r plant hynny yn hytrach na thynnu sylw atyn nhw y dylid ei wneud. Ond ateb cadarn Elvey oedd bod cyfle i ddisgyblion Anghenon Ychwanegol gystadlu ar *unrhyw* gystadleuaeth, ond yn yr adran honno o leiaf roedd cyfle i roi llwyfan iddyn nhw. Sicrhau cyfiawnder a chynnig cyfle.



Roedd yn dda mewn creisis. Byddai asesu'r sefyllfa ac yna'n ymateb yn ymarferol i ddatrys y broblem - fel y noson y difrododd y storm bafiliwn Dyffryn Ogwen. Roedd ei feddwl creadigol ar waith yn gyson: hwyluso trefn rhagbrofion, gwella arlwyo, mynnu'r gorau o'r cytundebau darlledu; sefydlu cyllideb i Sioe Gerdd a datblygu cynllun y maes a'r pafiliwn. Sail i Steddfod heddiw.
Roedd yn yrrwr cyflym a oedd yn cyrraedd pen y daith yn ddiogel bron bob tro - gyda rhai eithriadau nodedig. Adeg 'Steddfod Merthyr 1987 cafodd ei gar ei ddwyn o'r tu allan i'n tŷ ni yn yr Eglwysnewydd – a'i bryder mawr wedyn oedd nid 'Dw i wedi colli nghar' na 'Beth fydd Cyril yn ei ddweud?' ond 'Rhaid i mi fynd i'r maes!'
Ym Merthyr eto, dywedodd y Pwyllgor Gwaith un noson fod ganddyn nhw syniad ardderchog i sicrhau torf dda ar y maes. '*We'll invite the*

*Prince,*' medden nhw. '*What Prince*?' meddai yntau (a'i Saeseg yn eitha' da erbyn hynny) - ac roedd y sgwrs a ddilynodd yn enghraifft wych o sut i drin pwyllgor gyda dadleuon call a chwrteisi llwyr - ac ennill y dydd yn y pen draw. Roedd e'n credu ym mantra Gandhi: 'Colla dy dymer ac rwyt ti wedi colli'r ddadl', ond gallai fod yn ddiflewyn-ar-dafod hefyd pan fyddai angen.

Pêl-droed oedd ei hoff gamp - a hynny'n mynd yn ôl i gyfnod ysgol gynradd a Chynghrair Bêl-droed Dyffryn Camwy. Fel gyda'r Eisteddfod, rhoi cyfle i ddatblygu dawn a chefnogi eraill oedd y nod gyda'r Mini Minors a thîm tre' Aberystwyth - ac mae'n dda ei fod wedi gweld Cymru'n sgorio gôl yng Ngwpan y Byd ar y nos Lun - ac yntau wedi'n gadael erbyn canol yr wythnos honno.

Dyma eiriau Elvey ar ddiwedd ei *Hunangofiant*: 'Gofynnir yn aml i mi ymhle y mae 'nghartre - ai Cymru ynteu'r Wladfa? A'm hateb bob tro yw 'ym mhle bynnag y mae Delyth'. Medrwn fyw yn unrhyw ran o'r ddaear ond cael fy anwyliaid yno gyda mi. Cefais fywyd hapus iawn yng Nghymru, hi oedd gwlad breuddwydion fy mhlentyndod ac er nad yma mae beddrodau fy nhadau, yma *mae* fy mhlant yn byw, a'u plant hwythau. Byddai eu cael o nghwmpas am weddill fy oes yn cynnal fy llawenydd tan fy anadliad olaf'. Ac felly y bu - a dyna i chi deyrnged i deulu.

Ar yr un tudalennau yn ei *Hunangofiant* mae'n sôn llawer iawn am y dyddiau cynnar yn y Gaiman - a'i fam yn mynnu ei fod e ac Edith yn adrodd y pader bach cyfarwydd bob nos: pader a aeth drosodd gyda'r Mimosa mae'n amlwg. Mae sawl fersiwn o'r pennill bach sy'n dechrau ... *Rhof fy mhen bach lawr i gysgu, f'enaid bach i ofal Iesu...* ... a dywed: 'Bu geiriau'r pennill o gymorth i mi gysgu'n dawel wedi digwyddiadau a gwres y dydd; geiriau a wnai i fraw y nos droi'n gysur y bore' - a llinell ola'r pader, fel y cofiwch chi, yw *Derbyn Iesu fi i'th freichiau.*

**Eurig Davies**

Darllenwyd y gerdd Saesneg, 'Crossing the Bar', gan Alfred Lord Tennyson, yn angladd Ewen MacDonald, taid Elvey. Aeth yntau ati rai blynyddoedd yn ôl i greu fersiwn Gymraeg, a'i rhoi i Hector, ei nai, i gyfansoddi alaw iddi. Roedd e'n falch ohoni, ac fe'i chwaraewyd yn ei angladd.

Os ydych yn darllen ar-lein, dilynwch y ddolen hon i'w clywed yn llawn
[CROESI´R BAR Er cof am Elvey MacDonald - YouTube]




**Croesi'r Bar**

Machlud a seren lwys
A galwad glir i mi,
Ac na fo unrhyw riddfan ger y bar
Pan lithraf mas i'r lli.

Ond aed y llanw yn ei flaen fel cwsg,
Rhy drwm i glywed llef;
Pan dry yr hyn a ddaeth o'r dyfnder maith
Yn ôl tua thref.

Cyfnos a hwyrol gnul,
Ac yna'r nos yn cau;
Ac na fo deigryn hiraeth ar un grudd
Wrth i'm bellhau.

Cans er i'r lli fy nghludo draw ymhell
O glymau f'oes a 'nghâr,
Caf syllu ar fy Mheilot, teg ei wedd,
Ar ôl i mi groesi'r bar.

# Gweddi

## Gwobr Cariad

O Dduw,
ffynnon pob tosturi a rhoddwr pob diddanwch,
clyw ein hymbiliau ar ran dy fyd
ac ar ran dy bobl ym mhob man
sydd mewn angen am gymorth dy gariad tyner:

**Pobl anhapus y byd –**
y galarus, yr unig, yr amddifad
a'r diymgeledd a'r rhai sydd heb neb i'w caru;

**Pobl anghenus y byd –**
y newynog, y tlawd, y rhai sydd mewn caethiwed
a'r gorthrymedig na wyddant am gariad Duw
na gofal cyd-ddyn;

**Pobl anghyfrifol y byd –**
y rhai sy'n gorthrymu eraill
ac yn ddifater i sefyllfa druenus y gwan a'r diamddiffyn;

**Pobl addfwyn y byd –**
y rhai sy'n tystio mewn gair a gweithred
i ffordd ragorol cariad Iesu Grist.

Rho iddynt oll brofiad o rym dy gariad
a phenderfyniad i efelychu'r Arglwydd Iesu Grist
yn ei diriondeb a'i dosturi.

Amen

(Elfed ap Nefydd Roberts o *Cymer fy munudau*, Gol. Aled Davies a Trefor Lewis)

# SULIAU CHWEFROR

Blaenor y mis: Eleri Davies

5 Chwefror – Eifion Roberts (Cymun)
12 Chwefror – Beti Griffiths
19 Chwefror – Eifion Roberts
26 Chwefror – Jill Hailey Harris

Rhestr Blodau Chwefror

Chwefror 5 – Dilys Lloyd
Chwefror 12 – Elsbeth Lewis
Chwefror 19 – Nonna Owen (Elusen)
Chwefror 26 – Mair Griffiths ac Eleri Davies

*Diolch yn fawr i'r rhai sydd wedi rhoi eu henwau ar restr blodau 2023 neu, yn lle rhoi blodau, cyfrannu at elusen.*
*Diolch i Hywel C. Jones am argraffu'r rhestr ar gyfer y cyntedd.*
*Mae rhai Suliau gwag yn nes ymlaen yn y flwyddyn os ydych yn dymuno cynnig eich enw.* Diolch yn fawr

# Croeso Cynnes?

Bydd y Morlan ar agor bob dydd Mercher o 11 tan 2 o'r gloch ac yn cynnig lle cynnes i fwynhau sgwrs, paned a chawl. Mae gwahoddiad cynnes i chi ddod yno neu, i groesawu a helpu. Mae rhestr o wirfoddolwyr. Os ydych yn barod i wirfoddoli a wnewch gysylltu â Eifion neu Eleri os gwelwch yn dda.

Heb fod yng nghyfarfodydd yr wythnos o’r blaen?

Dewch! Beth am fentro?

Peidiwch â phoeni mae croeso cynnes i aelodau newydd bob amser.

Cymdeithas Gweddi a Choffi.

Bob bore Mawrth. Ar Zoom am 11 o’r gloch (pan mae siaradwyr o bell) neu wyneb yn wyneb yn y Festri am 10.30.
Paned a sgwrs. Be well?

Astudiaeth Ffydd a Phaned

Bob prynhawn Gwener am 2 o’r gloch ar Zoom.
Mentrwch unwaith. Fe fydd yn agoriad llygad!

Y Gymdeithas

6 Chwefror am 2:00 – D. Geraint Lewis ar Y Diarhebion, yn y festri.

20 Chwefror am 7:00 – Dathlu Gŵyl Ddewi gyda'r Athro Mererid Hopwood yn y Marine.
Pris Tocyn: £16 – ar gael gan y swyddogion.

Bargen!!